# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Tynnu 1 (rhifau  hyd at 10)** |
| Adnoddau: | • Numicon.<br>• Cardiau rhifau hyd at 10.<br>• Cownteri/blociau.<br>• Peli a hwpiau.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>• Cyflwyniad yn dangos sut i dynnu un – gweler y ddogfen *'Tynnu 1 – cyflwyniad'*.<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Edrych ar bob rhif o'r gyfres Cymeriadau Difyr. Trafod eu henwau a'u gwerth.<br>Gofyn i amrywiol ddysgwyr chwilio am y nifer cywir o gownteri i gyfateb i werth y rhif.<br>Dangos bysedd i ddangos gwerth bob rhif.<br>Chwilio am numicon sy'n cyfateb i bob rhif.<br><br>**<u>Cam 2 -  Tynnu 1</u>**<br>Edrych ar y cyflwyniad digidol a thrafod y cynnwys.<br>Gwneud pob un o'r gweithgareddau eto, ond y tro hwn, tynnu un oddi wrth bob rhif.<br><br>**<u>Cam 3: Gweithgareddau</u>**<br>Gweithio gyda'r dysgwyr mewn grwpiau.<br>Rhoi cownteri/blociau/numicon iddynt. Gofyn iddynt weithio allan beth yw'r rhif, yna tynnu un oddi wrtho. Cyfrif eto er mwyn darganfod yr ateb.<br>Dweud y cyfrifiad allan yn uchel e.e. "Tri tynnu un yn hafal i 2"<br><br>**<u>Cam 4: Clai</u>**<br>Rowlio peli o glai. Y dysgwyr i greu symiau -1 gyda'r peli ac yna eu gosod ar fyrddau tynnu wedi eu lamineiddio.<br>e.e. Llun bwced a'r dysgwyr i roi peli clai ynddo/arno ac yna tynnu un allan a'i roi ar llun rhaw, ac yna cyfrif sawl un sydd ar ôl yn y bwced)<br><br>**<u>Cam 5: Ardal allanol</u>**<br>Gosod 'symiau' ar gardiau ar lawr. Defnyddio hŵp i wneud y weithred tynnu i ffwrdd. 4 pêl, tynnu un allan o'r hŵp, sawl un sydd ar ôl? Yna gwneud y sym gan ddefnyddio rhifau yn yr hwpiau sydd â'r symbolau **-** a **=** wedi eu gosod rhyngddynt yn y llefydd cywir. Y dysgwyr i roi peli yn yr hwpiau i gyfateb i'r cyfrifiad, e.e. 3 phêl mewn un hŵp, tynnu un bêl i ffwrdd ac yna ddweud y sym allan yn uchel. (3-1=2) 'Tri tynnu un yn gadael 2'. |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 6: Peli/Bagiau ffa</u>**<br>Peli/Bagiau ffa a bwced – rhoi niferoedd o beli/bagiau ffa hyd at 10 mewn amrywiol fwcedi. Gofyn i'r dysgwyr dynnu un allan. Yna gofyn iddynt gofnodi - Sawl un sydd yna nawr? |
| Cwestiynu: | • Faint yw _____ tynnu 1?<br>• Wyt ti'n gallu dangos 3 tynnu 1 i fi yn y clai?<br>• Sawl pêl sydd yma nawr? |
| Beth nesaf? | Tynnu 1 oddi wrth rifau hyd at 20<br>Tynnu 2 oddi wrth rifau hyd at 5. |

